Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

24-01 (04)

**Eitem:** 05

**Teitl:** Adroddiad y Prif Weithredwr

## Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi rhai o'r pethau a gymerwyd ymlaen gan y Prif Weithredwr ers cyfarfod cyhoeddus diwethaf y Bwrdd ar 25 Hydref 2023. Mae gwybodaeth fanylach am ein gweithgareddau ers cyfarfod diwethaf y bwrdd wedi'i chynnwys ym mhapurau eraill y Bwrdd.

| **Datblygu perthnasoedd a gweithio gyda phartneriaid** |
| --- |
| Rwyf wedi parhau i gyfarfod â llawer o bartneriaid allweddol i siarad am ein rôl, datblygu ein cynlluniau a'n gweithgareddau, ein ffyrdd o weithio, materion allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a sut y gallwn gydweithio i gryfhau llais pobl yng ngwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys:<br><br>▪ Cyfarfod gyda thîm partneriaeth Llais i siarad am sefyllfa cyllideb Llais yn 2023-2024 a dyraniad ar gyfer 2024-2025<br><br>▪ Cyfarfod gyda Dr Henrietta Hughes, Comisiynydd Diogelwch Cleifion Lloegr. Fe wnaethom gytuno ar bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i gryfhau lleisiau pobl ar faterion diogelwch cleifion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw ym mhob rhan o'r DU. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn cynllunio cyfarfod pellach gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r DU i siarad am y ffordd orau o gyflawni hyn<br><br>▪ Cyflwyno i fyrddau Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. O ganlyniad, byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith pellach ar feysydd gweithgaredd penodol, gan gynnwys, er enghraifft, datblygu gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a Deallusrwydd Artiffisial a gofal iechyd.<br><br>▪ Mynychu uwchgynadleddau Gofal Iechyd Cymru. Cynhelir y cyfarfodydd hyn gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ddwywaith y flwyddyn ac maent yn darparu man cyfrinachol i ystod eang o gyrff statudol sy'n ymwneud â goruchwylio cyrff y GIG rannu'r |

hyn y maent wedi bod yn ei wneud a beth mae hyn wedi'i ddweud wrthynt am y GIG yng Nghymru.

Mae'r dull hwn yn rhoi cyfle i ddod â gwybodaeth ynghyd i nodi themâu a materion cyffredin i'w trafod gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r uwchgynadleddau hyn yn llywio lefel arolygiaeth Llywodraeth Cymru o sefydliadau'r GIG fel rhan o'i threfniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth, ac yn helpu i lywio cynlluniau a blaenoriaethau sefydliadau sy'n cymryd rhan.

- Canolbwyntio ar yr anghenion a'r materion sy'n wynebu gofalwyr yng Nghymru.  Roeddwn yn rhan o'r panel arbenigol yng Nghynhadledd Gofalwyr Cymru 2023, ac yn dilyn hyn gyda sgyrsiau pellach gyda Chadeirydd Cynghrair Cynhalwyr Cymru, i drafod a meddwl am y ffyrdd gorau y gall Llais ymwneud â'r Gynghrair a chydweithio i hysbysu a dylanwadu ar gynnydd a gweithgarwch ar ddatblygiadau allweddol, gan gynnwys, er enghraifft, Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol: cynllun gweithredu cychwynnol.

  Treuliais ddiwrnod gyda thîm Gofalwyr Cymru i glywed mwy am eu hymgyrchoedd a'u gweithgareddau yng Nghymru, yn ogystal â'r gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi cyflogwyr i ddatblygu gweithle cefnogol ar gyfer pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu.

  Rydym wedi cytuno ar ystod o gamau gweithredu o'r trafodaethau hyn.  Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, darparu sesiynau 'cinio a dysgu' ar gyfer rheolwyr llinell Llais ar gefnogi gofalwyr yn y gweithle, cymorth i adolygu ein polisïau a gweithdrefnau pobl o le sy'n 'gyfeillgar i ofalwyr', a gwaith pellach i ystyried y defnydd ac effaith y 'Siarter Gofalwyr' mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

- Sgyrsiau â swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am ei hymgynghoriad ar ganllawiau drafft i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol ar dryloywder yn y defnydd o ddata personol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a gwaith ehangach.  Roedd hyn yn dilyn ymlaen o'n cyflwyniad o dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder

Cymdeithasol y Senedd am gyfiawnder data a’r defnydd o ddata personol yn y GIG.

O ganlyniad i'n trafodaethau, gwnaethom ymateb i'r ymgynghoriad ac rydym wedi cytuno ar gyfres ehangach o gamau gweithredu.  Mae hyn yn cynnwys cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gefnogi rhannu gwybodaeth a chydweithio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin, yn ogystal â threfnu i swyddfa SCG i ddarparu cyfres o sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer ein staff newydd (a chyfleoedd gloywi i staff presennol) ar drin data personol, a'r cyfrifoldebau ychwanegol sydd arnom ni wrth drin data plant a phobl ifanc.

- Cyfarfod â Chadeiryddion y GIG, Is-gadeiryddion a Phrif Weithredwyr ynghyd â'n Cadeirydd, i siarad am ein rôl mewn gofal cymdeithasol, a datblygiad ein gwerthoedd, ein ffyrdd o weithio a'n strategaeth yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

- Cyfarfod â Chomisiwn Bevan i siarad am 2 faes allweddol o ddiddordeb cyffredin, cyfiawnder data a’r defnydd o ddata personol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a chydgysylltu camau gweithredu yn dilyn cyhoeddi ei adroddiad ‘Sgwrs gyda’r Cyhoedd’.  Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf

- Cyfarfod â Chadeirydd ac aelodau Grŵp Cynghori’r Gweinidog sy’n edrych ar atebolrwydd yn y GIG yng Nghymru i siarad am sut mae’r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd presennol yn gweithio.

## Datblygu ein hunain er mwyn gallu cyflawni

Rwyf wedi treulio llawer o amser yn gweithio gydag arweinwyr ein sefydliad, staff, a darparwyr gwasanaethau corfforaethol i barhau i adeiladu ein sefydliad newydd a'n ffyrdd o weithio.  Roedd hyn yn cynnwys:

- Cytuno ar drefniadau, gan gynnwys mwy o gapasiti arbenigol i gefnogi ein timau i fwrw ymlaen ag amrywiaeth o brosiectau 'gorchwyl a gorffen' sy'n cwmpasu ein dulliau o:

- degwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys datblygu ac ymgynghori ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol;
- gyflwyno fframwaith gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad newydd ar gyfer ein pobl, a datblygu ein strategaeth a rhaglen dysgu a datblygu
- ddatblygu a darparu ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion ledled Cymru

yn ogystal â chymorth i brosiectau penodol lle mae bylchau yn ein staffio presennol wrth inni barhau â'n rhaglen recriwtio

- Gytuno ar drefniadau ar gyfer tîm arbenigol i weithio gyda'n timau rhanbarthol ledled Cymru i gefnogi gweithio agosach trwy adeiladu a datblygu tîm
- Ymchwilio i lefel ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a'r nifer sy'n manteisio ar ein rhaglen cymorth a llesiant y gweithlu, a'r camau y mae angen inni eu cymryd mewn ymateb
- Gyfarfod â'n Harchwilwyr Mewnol newydd i siarad am y dull a'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ystod o archwiliadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2023-2024
- Drafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG am drefniadau indemniad, a'r camau gweithredu sydd eu hangen fel y gallwn symud ymlaen i lofnodi ein Cytundeb/au Lefel Gwasanaeth
- Gyflwyno amseroedd ac oriau agor cyson ar draws ein holl swyddfeydd yng Nghymru
- Gyfarfod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i siarad am y pwysau ar gyllid cyhoeddus yng Nghymru a'r camau sy'n cael eu cymryd mewn ymateb i hynny. Mae hyn yn cynnwys chwilio am gyfleoedd i gydweithio i rannu dysgu ac adnoddau, e.e. lle yn y swyddfa, ac ati.

## Sylwadau ar faterion gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

Rwyf wedi cyfarfod ag amrywiaeth o sefydliadau i rannu'r hyn yr ydym yn ei glywed am brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal, i siarad am yr hyn sydd angen digwydd i wneud pethau'n well ac i siarad am gynlluniau a chynigion i newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu'n genedlaethol.

Rwyf wedi siarad â:

- chynrychiolwyr y GIG yn arwain ar ddatblygiad rhaglen gyfathrebu gyhoeddus sy'n canolbwyntio ar ymestyn gwasanaethau offthalmoleg i'r stryd fawr. Bwriedir cynnal rhagor o sgyrsiau i edrych yn fanylach ar gynnwys a ffocws y cyfathrebu;

- ac wedi ysgrifennu at Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans Brys a'i dîm ynghylch ymgysylltu â'r cyhoedd a'u cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynigion a phenderfyniadau sy'n ymwneud â datblygu'r Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys yng Nghymru ymhellach.

  O ganlyniad, mae'r Comisiynydd wedi cytuno ar gyfnod pellach o gynnwys y cyhoedd fel bod pobl ledled Cymru yn cael cyfle i ddweud eu dweud ar yr opsiynau terfynol, wedi'u costio. Rydym yn gweithio gyda byrddau iechyd a'r Comisiynydd i lywio'r trefniadau manwl ar gyfer y cam hwn.

- Addysg a Gwella Iechyd Cymru am gyflwyno rolau proffesiynol newydd yn y sector fferylliaeth a beth mae hyn yn ei olygu i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fferylliaeth y GIG. O ganlyniad, bydd rhagor o waith a sgyrsiau yn cael eu cynnal rhyngom ni ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru fel bod y ffordd y mae pobl yn ymgysylltu, yn cael eu cynnwys ac yn cael eu hysbysu yn natblygiad gweithlu'r GIG yn fwy cydgysylltiedig.

- Cytunais ar ein dull o gynnal amrywiaeth o gyfweliadau teledu a radio am wasanaethau mamolaeth ac effaith streic y meddygon iau ar bobl a chymunedau.

## Trefniadau cynllunio ac adrodd

## Digwyddiadau a gweithgareddau i ddod

Mae rhai o’r gweithgareddau a’r digwyddiadau sydd i ddod y byddaf yn ymwneud â nhw yn ystod yr wythnosau nesaf yn cynnwys:

- Recriwtio i rolau Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol, a Chyfarwyddwr Gweithrediadau
- Cyfarfod â Llywodraeth Cymru i siarad am ddatblygiad ei Chynllun Iechyd Menywod
- Trafodaethau gyda chydweithwyr yn y GIG am adolygiad o'i Fframwaith Pobl a Chymunedau
- Cyfarfod â Diverse Cymru i siarad am ein hymagwedd at degwch, amrywiaeth a chynhwysiant a datblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cyfarfod â staff gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru i siarad am ein trefniadau partneriaeth
- Mynychu ein cynhadledd tîm eiriolaeth Cwynion Llais yng Nghanolbarth Cymru, i weithio ar ddatblygiad ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion a staff
- Cyfarfod â Gweithrediaeth GIG Cymru i siarad am y rhaglen strategol ar gyfer gofal wedi'i gynllunio
- Mynychu Cynulliad Gofalwyr Cymru 2024.